# CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

## COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR NOS FERCHER 22.02.2023 AM 7 O'R GLOCH YR HWYR -drost zoom.

**Presennol –** Cynghorwyr

Menna Jones(Cadeirydd)
Liz Daniel
Doug Jones
Edgar Owen
Delyth Jones (ymuno yn hwyrach)
Dafydd Davies
Hawys Tuff
Iwan Davies
Shoned Rees Griffith (Clerc)

**1. Croeso'r Cadeirydd -** Croesawodd y Cadeirydd pawb oedd yn bresennol. .

**2. Ymddiheuriadau –** Cyng SB, Cyng LLI

**3. Datganiadau aelodau yn unol â gofynion y Cod Ymddygiad.**

3.1. Ni ddatganwyd gwybodaeth ychwanegol i'r uchod, nag a restrir yn barod o fewn cofrestr 'Datganiad Cyffredinol o Fuddiannau Personol Aelodau'.

**4. Derbyn Cofnodion 18.01.2023**

Y Cyng EO yn cynnig fod y cofnodion yn gywir, Y Cyng LD yn eilio.

**5. Materion yn codi o'r Cofnodion 18.01.2023**

**Materion Caeathro** –

**Troedffordd o Gaeathro i Gaernarfon -** Dal ar yr agenda. Aros y Cais PAC.

**Drych -** Cyng EO i gyfarfod swyddog y Cyngor ar safle.

**Llinellau Melyn ger mynediad Erw Wen** - Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.

**Monitro cyflymer traffic Hen Lon Gaeathro** - Aros canlyniadau.

**Cylchfan Gaeathro** - Cyng MJ wedi adrodd i Cyngor Gwynedd ynglyn a chyflwr gwyneb y ffordd, aros ymateb.

**Llwybr troed o Garej Gwalia hyd at y Llwybr Cyhoeddus** -i drafod ymhellach.

**Materion Waunfawr** –

**Llinnellau Gwyn –**.Ar y rhaglen waith Cyngor Gwynedd.

**Les tir tu ol i'r Ganolfan / Cae Aml-dywydd** - Aros y Les gan Cyngor Gwynedd. Chydig o waith cynnal a chadw angen ei wneud i'r cae aros Cyngor Gwynedd i'w wneud.

**Golau fflachio bob ochr i'r pentref –**Sian Gwellian wedi anfon llythyr at y Bwrdd Iechyd i ofyn am ddiweddariad, aros ymateb.

**Gwefan y Cyngor Cymuned –**Heb dderbyn ymateb gan Smala, Clerc i anfon y wybodaeth ymlaen i'r Cyng DD i drio cael mynediad i'r wefan.
**Drych** - Cyng EO, am drefnu i gyfarfod swyddog y Cyngor ar safle i drafod ymhellach.
**Potiau blodau yn Waunfawr/Caeathro** - Aros Antur Waunfawr.
**Baw Ci** - Dal yn broblem yn y pentref, Un o'r trigolion y pentref wedi rhoid hysbyseb cyhoeddus ar dudalen weblyfr ei fod wedi cau un o'r llwybrau cyhoeddus yn y pentref yn aros Cyngor Gwynedd ymweld oherwydd baw ci.
**Gor yrru tu allan i'r ysgol** - Clerc i gyfarfod a'r Cyng ID ar y safle.
**Bin tu allan i siop** - Cyng DD wedi siarad hefo perchennog y siop sydd wedi gofyn os yn bosibl cael bin gan y Cyngor tu allan i siop oherwydd fod pobl yn rhoid baw ci ynddo fo yn ogystal a sbwriel cyffredin. Clerc i holi Cyngor Gwyned.

6. **Seddi Gwag -** un sedd wag ar ol ar y Cyngor Cymuned, Cynghorwyr i holi yn y pentref os oes gan rhwyun ddiddordeb.

7. **Gerddi Bach -** Grwp Cynefin i gadarnhau dyddiad y bydd y tenantiaid yn symud i mewn i'r tai. Aros pris gan MacVenture i osod rwber o dan y swings.

8. **Adroddiadau**

**a. Lloches Bws** -Enwau y Llochesi Bws newydd - Pen y Clip, Pant y Waun, Croes y Waun. Angen sylw i bolyn ger safle bws Croes y Waun, ac angen gosod polyn ger safle bws Pant y Waun. Cyng EO i holi Cyngor Gwynedd am enw pwy sy'n gosod llochesi bws iddynt er mwyn cysylltu i gael pris i osod y ddau loches bws ger yr ysgol ac yn Groeslon.

**. Y Fynwent -** Aros cadarnhad gan G R Services pryd fydd y gwaith yn cychwyn ar y wal, a glanhau ymwsog ar y llwybrau.

**c. Llwybrau -**. Wedi atgoffa G R Services am y wal tu ol i'r Cofgolofn.

**Ch. Safle y Toiled a'r Maes Parcio drost ffordd i'r Hen Bost -** Dim

9. **Materion Cynllunio**

**a. Ceisiadau newydd**

| Dyddiad Cofrestru | Bwriad | Lleoliad | Rhif Cais | Sylwadau |
|---|---|---|---|---|
| 2401.2023 | Cais llawn ar gyfer dymchwel yr unedau diwydiannol a masnachol presennol a chodi unedau diwydiannol a masnachol (B1, B2 &B8) newydd yn ei le ynghyd â isadeiledd ffyrdd newydd, ardaloedd gwasanaethu ac ardaloedd cyffredin, mannau parcio, dôl lifogydd a thirlunio ar dir a adnabyddir fel stâd | Ystâd Ddiwydianol Peblig Ffordd Llanbeblig, Caernarfon, Gwynedd, LL55 2SE | C22/0696/14/LL | Dim sylwadau |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ddiwydiannol Peblig. | | | |

**10. Gohebiaeth**

Theatr Bara Caws - Cariad yn Oes y Gin
Unllais - Cadarnhad o aelodaeth Unllais 2022-23
Cyng SB - Cais Cynllunio C22/0696/14/LL
Cyngor Gwynedd - cais am ad-daliad llwybrau cyhoeddus.
Cyngor Gwynedd - Cais Cynllunio C22/0696/14/LL
Cyngor Gwynedd - Cau Ffordd
Cyng EO - Mainc Cyfeillgarwch
Cyng EO - e-bost Cyngor Gwynedd - lleoliad gosod y ddau safle bws.
Cyng DD - diweddariad Glyn Rhonwy
Cyngor Gwynedd - Cynllun Llesiant Gwynedd a Mon
Cyng DD - cais am bin newydd tu allan i'r siop
Cyngor Gwynedd - Cais Cynllunio C23/0078/26/DT
Cyngor Gwynedd - Preasept 2023/24
Cyngor Gwynedd - C23/0039/26/DT
Cyngo MJ - ymateb Cyngor Gwynedd i ail wynebu Cylchfan Caeathro
Trigolion - ymholiad bin halen.

**11. Materion Ariannol**

**11.1 Arian wedi ei dalu allan**

| | |
|---|---|
| Rhodd i'r Ysgol Feithrin - er cof am Cadi | £25.00 |
| Aelodaeth Unllais 2022/23 | £240.00 |
| G R Services | £550.00 |
| Cyngor Gwynedd (bin Brown) | £37.00 |

**11.2 Arian a dderbyniwyd**

**11.3 Anfonebau i'w talu**

| | |
|---|---|
| Cyflog Clerc Ionawr, Chwefror a Mawrth | £774.00 |
| H M Revenue & Customs | £156.00 |
| Unllais | £258.00 |

**11.4 Ffioedd Banc**

| | |
|---|---|
| Rhagfyr - Ionawr 2023 | £9.00 |

Am edrych mewn i'r posibilrwydd i'r Cyngor Cymuned gael cyfrif ar lein, fyddai yn gwneud yn bosibl i ni wedyn dalu anfonebau a'r lein a.y.y.b ac yn lleihau ffioedd bancio.

**12. Archwiliad Blynyddol**

Clerc angen anfon yr archwiliad

**13. Dyddiad a Lleoliad y Cyfarfod Nesaf**

Nos Fercher, 05.04.2023, drost zoom.

Ni fydd y Cyng MJ yn bresennol yn ein cyfarfod nesaf ohewydd ei bod yn priodi, dymuniadau gorau i Menna a Tudur, gobeithio y cewch ddiwrnod i'w gofio. Mae'r Cyng HT wedi ymddiheuro yn barod hefyd.

**14. Materion Aelodau. -**

Cyng EO - Dim wedi ei dderbyn
Cyng SB - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng ID - Dim wedi ei dderbyn.
Cyng LD - Dim wedi ei dderbyn
Cyng MJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng DJ - Dim wedi ei dderbyn
Cyng HT - Dim wedi ei dderbyn
Cyng LLI - Dim wedi ei dderbyn.
Cyng DD- Cafwyd diweddariad ynglyn a cynllun Glyn Rhonwy ar lafar. Mae gan y cwmni tan flwyddyn nesaf i gadarnhau os yn symud ymlaen a'r Cynllun, ond edrych yn ffafriol ar hyn o bryd. Ni fydd dim 'Community Benefit' ar gael, ond bydd y mwyafrif o'r gwaith yn cael ei wneud o ochr Llanberis yn hytrach na Waunfawr.

A fyddai'r Cyngor Cymuned a diddordeb mewn edrych ar gynlluniau Egni Cymunedol? Roedd y pawb yn gefnogol i hyn, mae'r Cyng DD am wneud chydig o waith ymchwil ac adrodd yn nol yn ein cyfarfod nesaf.